Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru
Her Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

# Adroddiad ar

# Ysgol Sarn Bach
# Sarn Bach
# Pwllheli
# Gwynedd
# LL53 7LF

## Dyddiad yr arolygiad: Hydref 2017

## gan

## Estyn, Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru

## Ynglŷn ag Ysgol Sarn Bach

Lleolir Ysgol Gynradd Sarn Bach ym mhentref Sarn Bach ger Pwllheli yn awdurdod lleol Gwynedd. Mae'r ysgol yn gwasanaethu'r ardal leol ynghyd â nifer o bentrefi cyfagos. Cymraeg yw prif gyfrwng gwaith a bywyd yr ysgol ac fe gyflwynir Saesneg fel pwnc yng nghyfnod allweddol 2.

Mae 52 o ddisgyblion rhwng 3 a 11 oed ar y gofrestr, yn cynnwys tri disgybl oed meithrin amser llawn. Tua 47% o'r disgyblion sy'n siarad Cymraeg gartref ac ychydig iawn sydd o gartrefi lleiafrifol ethnig. Tua 9% o'r disgyblion sy'n gymwys i dderbyn prydau ysgol am ddim. Mae hyn yn is na'r canran cenedlaethol (19%). Mae'r ysgol wedi adnabod tua 21% o ddisgyblion fel rhai sydd ag anghenion ychwanegol.

Penodwyd y pennaeth i'w swydd ym mis Ebrill, 2017 ac arolygwyd yr ysgol ddiwethaf ym mis Mawrth 2011.

Mae rhagor o wybodaeth ar gael o wefan Llywodraeth Cymru, Fy Ysgol Leol, yn y ddolen isod.
http://mylocalschool.wales.gov.uk/index.html?iath=cym

## Crynodeb

Mae lles disgyblion yn ganolog i waith yr ysgol.  Mae bron pob disgybl yn ymddwyn yn dda, maent yn awyddus i ddysgu ac yn dangos parch tuag at eraill.  Yn ystod eu cyfnod yn yr ysgol, mae llawer yn gwneud cynnydd da yn eu dysgu o'u mannau cychwyn.  Mae'r athrawon yn cynllunio profiadau dysgu diddorol sy'n ennyn diddordeb disgyblion ac yn eu hysgogi i ddysgu.  Un o gryfderau'r ysgol yw'r ethos gofalgar sy'n bodoli ynddi.  Mae'r ysgol yn elwa o arweinyddiaeth glir sy'n seiliedig ar godi safonau a sicrhau lles da'r disgyblion.  Mae trefniadau cynhwysfawr yn eu lle i werthuso gwaith yr ysgol a sicrhau gwelliant.

| Maes arolygu | Barn |
|---|---|
| **Safonau** | **Da** |
| **Lles ac agweddau at ddysgu** | **Da** |
| **Addysgu a phrofiadau dysgu** | **Da** |
| **Gofal, cymorth ac arweiniad** | **Da** |
| **Arweinyddiaeth a rheolaeth** | **Da** |

## Argymhellion

A1 Mireinio'r cynlluniau i sicrhau bod medrau llythrennedd, rhifedd a TGCh y disgyblion yn adeiladu'n systematig ar rai blaenorol

A2 Cryfhau'r system olrhain cynnydd i ganolbwyntio ar grwpiau penodol o ddisgyblion

A3 Datblygu rôl y llywodraethwyr fel eu bod yn dwyn arweinwyr i gyfrif yn effeithiol

## Beth sy'n digwydd nesaf

Bydd yr ysgol yn llunio cynllun gweithredu i fynd i'r afael â'r argymhellion o'r arolygiad.

## Prif ganfyddiadau

**Safonau: Da**

Wrth ddechrau yn yr ysgol, mae medrau sylfaenol mwyafrif y disgyblion islaw'r hyn a ddisgwylir ar gyfer eu hoed. Wrth iddynt symud drwy'r ysgol, mae llawer yn gwneud cynnydd da yn eu dysgu o'u mannau cychwyn. Mae'r disgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol a'r disgyblion mwy galluog yn gwneud cynnydd da ac yn cyflawni'n dda. Mae rhan fwyaf y disgyblion yn adalw gwybodaeth flaenorol yn effeithiol. Mae'r rhan fwyaf yn defnyddio'u medrau meddwl yn llwyddiannus, er enghraifft wrth baratoi llythyron medrus i gwyno am drefniadau i orffen cynnig chwaraeon mewn ysgolion lleol.

Mae medrau llafar Cymraeg rhan fwyaf y disgyblion yn datblygu'n dda ar draws yr ysgol. Yn y cyfnod sylfaen, mae'r rhan fwyaf yn siarad yn naturiol ac yn gynyddol gywir. Maent yn awyddus iawn i drafod eu gwaith a chynnig esboniadau am yr hyn maent yn ei wneud. Yng nghyfnod allweddol 2, mae rhan fwyaf y disgyblion yn mynegi eu hunain yn glir yn y Gymraeg a'r Saesneg. Maent yn awyddus iawn i gyfrannu at drafodaethau dosbarth gan ddefnyddio geirfa bynciol yn hyderus wrth drafod eu testunau. Maent yn cynnal sgyrsiau aeddfed gan ddefnyddio amrywiaeth o gystrawennau ac ymadroddion diddorol.

Mae rhan fwyaf y disgyblion yn y cyfnod sylfaen yn darllen yn dda i wahanol bwrpasau yn y Gymraeg. Maent yn barod iawn i drafod cymeriadau yn eu llyfrau yn ystyrlon. Mae llawer o ddisgyblion cyfnod allweddol 2 yn darllen yn hyderus yn y Gymraeg a'r Saesneg. Mae'r disgyblion mwy abl yn defnyddio goslef llais yn effeithiol, sy'n cadarnhau eu dealltwriaeth o'r hyn maent yn ei ddarllen. Mae disgyblion yn gwneud defnydd da o'u huwch fedrau darllen i ganfod gwybodaeth benodol wrth ymchwilio i wahanol destunau mewn hanes a gwyddoniaeth. Ar draws yr ysgol, mae disgyblion yn meddu ar ystod o strategaethau darllen effeithiol iawn.

Erbyn diwedd y cyfnod sylfaen, mae rhan fwyaf y disgyblion yn ysgrifennu'n annibynnol gyda chywirdeb cynyddol. Mae rhan fwyaf y disgyblion hŷn yn ysgrifennu'n estynedig i wahanol bwrpasau, gan gynnwys ysgrifennu llythyron a straeon dychmygol. Mae'r rhan fwyaf yn cyflwyno'u gwaith yn drefnus a thaclus iawn ac yn atalnodi'n gywir. Erbyn Blwyddyn 6, mae rhan fwyaf y disgyblion yn defnyddio eu medrau ysgrifennu mewn ystod o gyd-destunau ar draws y cwricwlwm. Er enghraifft, maent yn cynhyrchu gwaith ymchwil effeithiol ar gyfrifiadau 1851, 1881 ac 1891. Mae rhan fwyaf y disgyblion yn ysgrifennu'n drefnus ac yn cyflwyno gwybodaeth yn effeithiol. Mae gwaith ysgrifennu estynedig y goreuon o ansawdd uchel, er enghraifft pan fyddant yn cyflwyno gwaith ymchwil ar Malala a'i haraith.

Mae medrau rhifedd y disgyblion yn datblygu'n dda ar draws y cyfnod sylfaen. Erbyn diwedd y cyfnod, mae llawer ohonynt yn defnyddio ystod o fedrau rhif yn effeithiol ac yn hyderus mewn amrywiol gyd-destunau i gadarnhau eu defnydd ar draws y cwricwlwm. Maent yn datrys problemau yn llwyddiannus, er enghraifft wrth newid punnoedd i ddoleri Awstralia. Mae'r rhan fwyaf yn darganfod tymheredd a darllen tymheredd islaw sero. Maent yn datrys problemau yn ymwneud â phellter a phwysau yn effeithiol. Yng nghyfnod allweddol 2, mae gan ran fwyaf y disgyblion ddealltwriaeth gadarn o strategaethau rhifedd. Maent yn cymhwyso eu medrau'n

fedrus ac yn datblygu strategaethau priodol i ddatrys problemau yn ymwneud â'u hastudiaeth o dymheredd y gwahanol blanedau yng nghysawd yr haul. Maent yn casglu gwybodaeth a chanlyniadau mewn modd systematig ac yn cyflwyno eu casgliadau yn gywir. Maent yn dangos dealltwriaeth dda o amrediad, modd, cymedr a chanolrif wrth ymchwilio i bwysau dinosoriaid.

Mae rhan fwyaf y disgyblion yn y cyfnod sylfaen yn hyderus wrth ddefnyddio ystod o offer technoleg gwybodaeth a chyfathrebu (TGCh) yn effeithiol i greu ac arddangos eu gwaith ar draws y meysydd dysgu. Erbyn Blwyddyn 2, mae'r rhan fwyaf yn creu lluniau electronig da o robin goch wedi'u labelu, a graffiau effeithiol o'u hoff liwiau. Maent yn animeiddio cyfres o luniau yn llwyddiannus i ddangos sut i lanhau dannedd. Yng nghyfnod allweddol 2, mae rhan fwyaf y disgyblion yn defnyddio'r rhyngrwyd yn llwyddiannus i chwilio am wybodaeth. Maent yn defnyddio amrywiaeth eang o raglenni TGCh i wahanol ddibenion ar draws y cwricwlwm.

**Lles ac agweddau at ddysgu: Da**

Mae gan bron pob disgybl ddealltwriaeth drwyadl o bwysigrwydd bwyta ac yfed yn iach. Mae llawer o ddisgyblion y cyfnod sylfaen yn siarad yn hyderus am ba fwydydd sy'n iachus neu'n llai iachus iddyn nhw, a'r bwydydd sy'n cael effaith niweidiol ar eu dannedd. Mae gan y disgyblion hŷn ddealltwriaeth gadarn o'r angen i gadw'n iach trwy yfed dŵr, bwyta'n synhwyrol a chyfranogi mewn gweithgareddau corfforol er mwyn sicrhau eu ffitrwydd. Mae disgyblion yn gwerthfawrogi'r cyfleoedd i wneud gymnasteg a nofio yn y ganolfan hamdden sy'n eu galluogi i gymryd rhan mewn cystadlaethau. Mae'r cyfleoedd i fynd ar deithiau preswyl, er enghraifft i Blas Menai, yn cyfrannu'n gadarnhaol at ddatblygiad eu ffitrwydd a'u medrau cymdeithasol.

Mae bron pob disgybl yn ymddwyn yn dda ac yn arddangos parch a chwrteisi tuag at ei gilydd, staff ac ymwelwyr. Mae disgyblion hynaf yr ysgol yn ofalgar iawn o'r disgyblion ieuengaf. Er enghraifft, mae'r 'ffrindiau ffyddlon' yn gofalu bod y disgyblion ieuengaf yn ddiogel a hapus ar y bws nofio. Mae rhan fwyaf y disgyblion yn hyderus fod yr ysgol yn ymateb i unrhyw bryder sydd ganddynt yn brydlon ac yn trin unrhyw achosion o fwlio yn dda.

Mae'r disgyblion yn manteisio'n rheolaidd ar gyfleoedd gwerthfawr i leisio barn ar yr hyn y maent am ei ddysgu trwy ddewis thema'r tymor. Yn wythnosol, mae'r disgyblion yn mynegi barn am y gweithgareddau yr hoffent eu gwneud nesaf o fewn y thema.

Mae agweddau rhan fwyaf y disgyblion at ddysgu yn gryfder yn yr ysgol. Mae bron pob disgybl yn frwdfrydig ac yn gweithio'n ddiwyd am gyfnodau estynedig wrth gwblhau eu gweithgareddau. Maent yn cefnogi dysgu ei gilydd yn effeithiol drwy dderbyn cymorth wrth eu cyfoedion cyn gofyn am gymorth oedolyn. Mae hyn yn datblygu eu medrau annibynnol ac yn eu paratoi i fod yn oedolion cymwynasgar. Mae gan ran fwyaf y disgyblion, o oed cynnar, ddealltwriaeth gadarn o'r hyn sydd angen iddynt ei wneud i wella eu gwaith. Mae'r disgyblion ieuengaf yn esbonio cod marcio'r ysgol yn glir ac yn deall sut mae hyn yn eu helpu i wella'u gwaith.

Mae rhan fwyaf y disgyblion yn ymwybodol o bwysigrwydd mynychu'r ysgol yn rheolaidd ac yn brydlon.

**Addysgu a phrofiadau dysgu: Da**

Mae ansawdd yr addysgu ar draws yr ysgol yn dda. Mae hyn yn seiliedig ar berthynas waith agos rhwng staff a disgyblion. Mae athrawon yn darparu tasgau o ansawdd uchel sy'n ennyn diddordeb bron pob disgybl ac yn eu herio'n dda i gyflawni safonau uchel. Mae athrawon a chymorthyddion dysgu yn adnabod disgyblion yn dda ac yn teilwra gweithgareddau dosbarth i fodloni anghenion disgyblion o bob gallu yn llwyddiannus. Mae gan ran fwyaf yr athrawon ddisgwyliadau uchel o'u disgyblion ac maent yn defnyddio amrywiaeth o strategaethau dysgu yn effeithiol, gan gynnwys holi treiddgar, er mwyn datblygu gwybodaeth flaenorol ac ymestyn dealltwriaeth disgyblion yn llwyddiannus. Mae pob un o'r athrawon yn rheoli eu hystafelloedd dosbarth yn effeithiol, gan hyrwyddo ymddygiad da ac annog ymgysylltiad â dysgu. Mae athrawon yn sicrhau cyflymder addas i'w gwersi sy'n arwain at lefelau ymrwymiad uchel ymysg y disgyblion.

Mae'r ysgol wedi gwella'r defnydd o strategaethau asesu ar gyfer dysgu. Mae hyn yn sicrhau bod disgyblion yn cael cyfleoedd gwerthfawr i hunanasesu eu gwaith a gwaith eu cyfoedion yn erbyn meini prawf llwyddiant penodol. Mae bron pob un o'r athrawon yn cynnig adborth effeithiol a synhwyrol ar lafar ac yn ysgrifenedig i symud y dysgu ymlaen.

Mae'r ysgol yn cynllunio profiadau dysgu diddorol sy'n ennyn diddordeb disgyblion ac yn eu hysgogi i ddysgu yn llwyddiannus. Mae'r profiadau hyn yn bodloni gofynion y cyfnod sylfaen a'r Cwricwlwm Cenedlaethol yn llawn. Mae'r cynlluniau gwaith yn addas ac yn ymateb yn briodol i ofynion y Fframwaith Llythrennedd a Rhifedd. Ar y cyfan, maent yn nodi cyfleoedd da i ddisgyblion ddefnyddio eu medrau llythrennedd a rhifedd ar draws gwahanol feysydd. Ar adegau, fodd bynnag, nid yw'r cynlluniau tymor hir yn ddigon bwriadus i sicrhau bod y medrau'n cael eu hadeiladu'n ddigon systematig. Mae'r ddarpariaeth yn sicrhau bod y rhan fwyaf o fedrau TGCh yn cael eu datblygu'n dda.

Mae pob aelod o'r staff yn modelu'r iaith Gymraeg i safon uchel iawn ac maent yn annog disgyblion i ddefnyddio a mireinio eu hiaith yn gyson mewn amrywiol weithgareddau dyddiol. Ar draws yr ysgol, mae staff yn sicrhau cydbwysedd da rhwng gweithgareddau o dan arweiniad oedolyn a chyfleoedd pwrpasol i ddisgyblion weithio'n annibynnol. Mae'r cynllunio arferol yn galluogi athrawon i fod yn ddigon hyblyg i ymateb i syniadau a diddordebau disgyblion. Ar draws yr ysgol, mae athrawon yn darparu digon o gyfleoedd effeithiol i ddisgyblion wneud penderfyniadau mewn perthynas â'u dysgu. Er enghraifft, yng nghyfnod allweddol 2, mae cyfleoedd cyson i ddisgyblion gyfrannu at themâu dosbarth, a'r tymor hwn, maent wedi pleidleisio i ddewis y testun 'chwaraeon'.

Mae gan yr ysgol ethos Cymreig naturiol sy'n ennyn balchder y disgyblion yn yr iaith Gymraeg a threftadaeth Cymru. Mae'r ysgol yn manteisio ar adnoddau lleol a chenedlaethol i ehangu dealltwriaeth y disgyblion o Gymru a'i diwylliant. Er enghraifft, mae'r staff yn trefnu ymweliadau gwerthfawr bob blwyddyn i Ynys Enlli, Plas Menai a Phlas Tan y Bwlch, sy'n datblygu medrau annibynnol a chymdeithasol y disgyblion yn llwyddiannus.

Darpara'r ysgol ystod helaeth o brofiadau ysgogol i ddisgyblion ddysgu am gynaliadwyedd. Er enghraifft, mae'r ysgol yn magu tair iâr mewn cwt sydd wedi cael

ei greu gan y rhieni er mwyn iddynt ddodwy wyau i'w gwerthu. Hefyd, mae'r disgyblion hŷn yn dewis thema ar yr amgylchedd ac maent yn edrych yn arbennig ar effaith ailgylchu ar yr amgylchedd.

**Gofal, cymorth ac arweiniad: Da**

Mae'r disgyblion yn teimlo'n ddiogel a hapus yn yr ysgol ac yn cydnabod bod yr athrawon yn gyfeillgar a'u bod yn hawdd mynd atynt am gymorth pan fydd angen. Mae'r staff yn creu ethos gofalgar lle mae pawb yn cael eu parchu a'u gwerthfawrogi yn yr ysgol. Mae'r amgylchedd dysgu yn annog disgyblion i ymfalchïo yn eu gwaith ac i gyfrannu'n sylweddol at fywyd yr ysgol. Mae trefniadau ar gyfer diogelu disgyblion yn bodloni gofynion ac nid ydynt yn destun pryder.

Caiff y disgyblion nifer o gyfleoedd penodol i ysgwyddo cyfrifoldebau. Er enghraifft, maent yn aelodau o'r cyngor ysgol, y pwyllgor eco neu yn swyddogion diogelwch y ffordd, ac mae'r 'Ffrindiau Ffyddlon' yn effeithiol iawn wrth ddatblygu ymdeimlad cryf o gyfrifoldeb ymhlith y disgyblion hŷn. Cyn cychwyn thema newydd yn y dosbarth, caiff y disgyblion gyfleoedd addas i gynnig syniadau am yr hyn maent am ei astudio. Ar ôl creu rhestr fer, mae disgyblion cyfnod allweddol 2, er enghraifft, yn pleidleisio a dewis thema benodol ar gyfer pob tymor yn ei dro.

Mae staff yr ysgol yn adnabod y disgyblion a'u teuluoedd yn dda. O ganlyniad, mae ganddynt berthynas gadarn a phwrpasol gyda nhw sy'n ategu gwerthoedd cadarn yr ysgol yn llwyddiannus. Mae hyn yn ehangu'r gofal, y cyfarwyddyd a'r gefnogaeth i ddisgyblion yn dda. Mae'r ysgol yn casglu ac ystyried safbwyntiau rhieni trwy holiaduron a chyfarfodydd buddiol. Er enghraifft, ystyrir eu safbwyntiau wrth adolygu polisïau a chynlluniau datblygiadau'r dyfodol.

Mae gan yr ysgol weithdrefnau effeithiol i annog disgyblion i fwyta ac yfed yn iach. Mae'r staff yn sicrhau bod disgyblion yn deall pwysigrwydd gwneud ymarfer corff a nofio yn rheolaidd. Mae'r disgyblion yn mwynhau'r cyfleoedd i chwarae hoci, rygbi , rownderi a phêl-droed.

Mae'r ysgol yn hyrwyddo datblygiad ysbrydol, moesol, cymdeithasol a diwylliannol disgyblion yn effeithiol drwy weithgareddau cwricwlaidd, gwasanaethau a digwyddiadau creadigol. Caiff y disgyblion gyfleoedd i fyfyrio ar broblemau cyd-ddisgyblion a phobl sy'n dioddef ar draws y byd. Mae'r hysbysfyrddau 'Ble yn y Byd' a'r 'Goeden Gofio' yn y neuadd yn cadarnhau'r pwyslais mae'r ysgol yn ei roi ar foesgarwch. Mae'r disgyblion yn cael cyfleoedd gwerthfawr i gystadlu mewn eisteddfodau ac i fynychu canolfannau preswyl. Mae'r ddarpariaeth ar gyfer addysg bersonol a chymdeithasol yn llwyddiannus ac, o ganlyniad, mae rhan fwyaf y disgyblion yn datblygu dealltwriaeth gadarn o barch a phwysigrwydd ystyried safbwyntiau ei gilydd.

Mae gan yr ysgol weithdrefn addas i olrhain cynnydd a chyflawniad disgyblion, ac mae'r staff yn ei defnyddio'n rheolaidd i'w cynorthwyo i ddarparu gweithgareddau ar eu cyfer. Fodd bynnag, ar hyn o bryd, nid yw'r ysgol yn gwneud defnydd penodol o'r weithdrefn i olrhain datblygiad grwpiau penodol o ddisgyblion yn ddigon manwl i alluogi arweinwyr i werthuso gwir effaith y ddarpariaeth ar eu cynnydd.

Mae ansawdd y ddarpariaeth ar gyfer dysgwyr ag anghenion dysgu ychwanegol yn drwyadl ac effeithiol. Mae'r ysgol yn adnabod anghenion dysgwyr yn gynnar ac yn ymyrryd lle bo angen. Mae'r cynlluniau addysg unigol o ansawdd da. Maent yn fanwl ac yn cynnwys targedau cyraeddadwy sy’n cael eu hadolygu’n rheolaidd. Cydweithia'r ysgol yn agos gyda'r rhieni ac asiantaethau allanol wrth adolygu cynnydd y dysgwyr hyn.

Mae rhan fwyaf y disgyblion yn ymwybodol o’u targedau ac yn gwybod beth sydd angen iddynt ei wneud i wella eu gwaith.

**Arweinyddiaeth a rheolaeth: Da**

Mae gan y pennaeth weledigaeth glir a disgwyliadau uchel ar gyfer yr ysgol. Llwydda i rannu’r weledigaeth hon yn effeithiol iawn gyda staff, llywodraethwyr, rhieni a disgyblion. Ers ei phenodiad, ac mewn amser byr iawn, mae wedi creu cyfeiriad strategol cadarn sy’n seiliedig ar godi safonau a sicrhau lles disgyblion. Mae’r pennaeth wedi ennill parch y staff ac mae ethos amlwg o gydweithio agos iawn yn bodoli.

Mae pob aelod o’r staff yn ymwybodol o’u rolau a’u cyfrifoldebau ac maent yn eu cyflawni’n effeithiol. Mae strwythur staffio’r ysgol yn glir ac mae gan bob aelod swydd ddisgrifiad manwl a chyfredol. Mae cyfarfodydd staff yn digwydd yn rheolaidd ac yn canolbwyntio’n glir ar flaenoriaethau gwella.

Mae arweinwyr wedi rhoi nifer o weithdrefnau priodol ar waith yn ddiweddar i osod seiliau mwy cadarn ar gyfer codi safonau. Trwy ddefnydd medrus o weithdrefnau trylwyr rheoli perfformiad, sy’n cynnwys athrawon a staff ategol, mae arweinwyr yn llwyddo i ddwyn staff i gyfrif yn llwyddiannus am eu perfformiad.

Mae’r ysgol yn ymateb yn dda i flaenoriaethau cenedlaethol a lleol, gan gynnwys gwella medrau llythrennedd a rhifedd disgyblion. Mae hefyd yn paratoi’n bwrpasol i wireddu’r Fframwaith Cymhwysedd Digidol.

Mae’r llywodraethwyr yn gefnogol iawn i waith yr ysgol, yn cwrdd yn rheolaidd ac yn cyflawni eu dyletswyddau yn gydwybodol. Mae adroddiadau trwyadl y pennaeth yn sicrhau bod ganddynt wybodaeth berthnasol am berfformiad yr ysgol. Maent yn dadansoddi ystod o ddata perfformiad yn ddeallus ac mae ganddynt ddealltwriaeth gadarn o gynnwys cynllun datblygu presennol yr ysgol ac o’r blaenoriaethau ar gyfer gwella. Fodd bynnag, nid yw’r llywodraethwyr yn dwyn arweinwyr i gyfrif yn ddigon effeithiol.

Mae gan arweinwyr a rheolwyr ddealltwriaeth gywir o gryfderau a meysydd i’w datblygu. Maent yn gwneud defnydd llwyddiannus o dystiolaeth uniongyrchol ar ansawdd y dysgu a’r addysgu i fonitro cyflawniad disgyblion. Mae’r gweithdrefnau hunanarfarnu yn rhoi ystyriaeth addas i farn disgyblion a rhieni ar agweddau ar fywyd yr ysgol. Mae’r cynllun datblygu ysgol yn fanwl ac yn ddogfen weithio effeithiol sy’n llywio gwaith yr ysgol yn llwyddiannus. Mae blaenoriaethau yn y cynllun datblygu ysgol yn deillio’n uniongyrchol o feysydd i’w datblygu a nodwyd yn y ddogfen hunanarfarnu. Rhoddir ffocws priodol ar godi safonau a gwella ansawdd y ddarpariaeth. Mae’r ysgol yn monitro’r cynnydd yn erbyn y targedau a nodwyd yn ofalus.

Mae arweinwyr yn sicrhau bod staff yn cael cyfleoedd gwerthfawr i ddatblygu'n broffesiynol. Er enghraifft, mae'r hyfforddiant a ddarparwyd i ddatblygu strategaethau asesu ar gyfer dysgu wedi arwain at ddefnydd effeithiol o'r strategaethau hyn yn y rhan fwyaf o ddosbarthiadau. Mae athrawon yn cael cyfleoedd i ymgymryd â chyrsiau i ddatblygu agweddau ar TGCh yn yr awdurdod lleol ac i gefnogi athrawon sydd newydd gymhwyso.

Mae'r ysgol wedi ei staffio'n briodol a gwna arweinwyr ddefnydd effeithiol o arbenigedd unigolion i gyfoethogi'r addysgu a'r dysgu. Er enghraifft, ceir arbenigwyr i addysgu pynciau fel cerdd, iaith ac addysg gorfforol. Mae arweinwyr yn rheoli'r gyllideb yn ofalus iawn ac yn sicrhau bod y gwariant yn cysylltu'n dda â'r cynlluniau ar gyfer gwelliant. Gwna'r ysgol ddefnydd da o'r grant datblygiad disgyblion i wella medrau llythrennedd a rhifedd disgyblion sy'n gymwys i dderbyn prydau ysgol am ddim.

Mae gan yr ysgol ystod o adnoddau o ansawdd priodol y mae'n eu rheoli'n dda. Mae'r amgylchedd yn ysgogol ac mae arddangosfeydd ar y waliau yn dathlu cyflawniadau disgyblion yn dda. Mae'r ardaloedd awyr agored yn cynnwys ystod o offer pwrpasol ar gyfer datblygu medrau cymdeithasol a chorfforol disgyblion. O ganlyniad, maent yn elwa ar ardal ddysgu eang sy'n cymell eu dysgu yn briodol. Caiff yr adeilad ei gynnal a'i gadw'n dda.

## Copïau o'r adroddiad

Mae copïau o'r adroddiad hwn ar gael gan yr ysgol ac ar wefan Estyn (www.estyn.llyw.cymru)

Mae Estyn yn arfarnu effeithiolrwydd darparwr gan ddefnyddio graddfa bedwar pwynt ar gyfer barnau:

| | |
|---|---|
| **Rhagorol** | Perfformiad ac arferion cryf iawn, cynaledig |
| **Da** | Nodweddion cryf, er y gall fod angen gwella mân agweddau |
| **Digonol ac angen gwelliant** | Cryfderau'n gorbwyso gwendidau, ond agweddau pwysig y mae angen eu gwella |
| **Anfoddhaol ac angen gwelliant ar frys** | Gwendidau pwysig yn gorbwyso cryfderau |

Lluniwyd yr adroddiad hwn yn unol ag Adran 28 Deddf Addysg 2005.

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor, Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.llyw.cymru

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.llyw.cymru

Ⓗ Hawlfraint y Goron 2017: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.

Dyddiad cyhoeddi: 11/12/2017